**Eluned Morgan AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**
**Minister for Welsh Language and Lifelong Learning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-787
Ein cyf/Our ref EM/05003/17

David John Rowlands AM
Chair - Petitions committee.
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff Bay
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

14 Tachwedd 2017

Annwyl David

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Hydref ynghylch Gwaith Ieuenctid yn cael ei ddosrannu i awdurdodau lleol drwy'r Grant Cynnal Refeniw.

Fel sy'n cael ei gydnabod yn eich llythyr, mae rhywfaint o'r cyllid sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yn mynd yn uniongyrchol i'r awdurdodau lleol drwy'r Grant Cynnal Refeniw. Diben hyn yw sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu defnyddio'r cyllid yn unol â'r blaenoriaethau a nodwyd ganddynt hwy yn lleol. Gwyddom fod awdurdodau lleol yn gwario ar hyn o bryd ganrannau gwahanol o'u cyllid o dan y Grant Cynnal Refeniw ar waith ieuenctid. Gwyddom hefyd fod Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch yr Ymchwiliad i Waith Ieuenctid "Pa fath o wasanaeth ieuenctid y mae Cymru ei eisiau?" yn trafod y mater hwn ac yn gofyn am roi mecanweithiau yn eu lle i sicrhau bod awdurdodau lleol yn atebol am ddefnyddio cyllid ar gyfer gwaith ieuenctid.

Fel y nodais yn fy ateb i argymhellion y Pwyllgor, rwyf wrthi ar hyn o bryd yn adolygu Ymestyn Hawliau. Mae'r gwaith o gysylltu â'r sector er mwyn ymgymryd â'r dasg hon ar y gweill eisoes. Rwyf wedi gofyn i Margaret Jervis edrych ar Ymestyn Hawliau er mwyn helpu i lywio'r cyfeiriad strategol a'r canllawiau sydd eu hangen i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth, y polisïau a'r sefyllfa ariannol bresennol ac i bennu disgwyliadau realistig ar gyfer yr hyn y gellir ei gyflawni. I'r diben hyn felly bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn y flwyddyn newydd ar y ffordd ymlaen.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ogystal â hynny, rwyf eisoes wedi nodi'r bwriad i sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cymorth Gwaith Ieuenctid. Byddai'r Bwrdd yn cynghori ar ddyfodol y gwasanaethau ieuenctid yng Nghymru yn ogystal â gweithredu'r rhaglen ddiwygiedig ar Ymestyn Hawliau a'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid yn y dyfodol. Byddai hefyd yn edrych ar y ffyrdd priodol o ddefnyddio'r cyllid i gefnogi'r tair strategaeth allweddol hyn. Er hynny mae'n bwysig ein bod yn caniatáu digon o amser i Margaret gwblhau ei hadolygiad ac i'r sector fyfyrio ynghylch ei ganfyddiadau er mwyn sicrhau ein bod yn cael yr effaith fwyaf bosib wrth roi'r cyfan ar waith er lles y bobl ifanc hynny rydym yn ceisio eu cefnogi. Nid yw'n fwriad gen i felly newid y trefniadau cyllido presennol ar hyn o bryd.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AC/AM**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Welsh Language and Lifelong Learning